Grŵp Trawsbleidiol ar y Celfyddydau ac Iechyd

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau Medi 22ain 2016 yn y Pierhead

Croesawodd Eluned Morgan AC y gwesteion a rhoddodd drosolwg o amcanion y grŵp. Wedyn cafwyd cyflwyniadau bord gron. Cylchredwyd cofrestr, a chofnodwyd yr enwau canlynol:

*Alison Warner - Rheolwr Prosiect - BIP Cwm Taf*

*Elizabeth Aylett - Pennaeth Therapïau Celfyddydau – BIP Betsi Cadwaladr*

*Rosemary Graham – Hyfforddwr / Crëwr "The Life Awakening Coach"*

*Rhiannon Pritchard - Cerddoriaeth Fyw Nawr*

*Jessica Robinson - Cerddoriaeth Fyw Nawr*

*Emily Underwood-Lee - Canolfan Adrodd Storïau George Ewart-Evans ar gyfer BIP ABM*

*Prue Thimbleby - Adrodd Storïau*

*Gareth Coles - Cyfarwyddwr Celfyddydau Gwirfoddol Cymru*

*Sally Lewis - Rheolwr Portfffolio, Cyngor Celfyddydau Cymru*

*Phil George - Cyfarwyddwr, Cyngor Celfyddydau Cymru*

*Angela Rogers - Engage Cymru*

*Stephanie Bolt - Academydd*

*David Jones - David Jones Associates*

*Claire Cressey - Cyfarwyddwr, Cerddoriaeth Fyw Nawr*

*Dafydd Elis-Thomas - AC Dwyfor Meirionnydd*

*Julie Morgan - AC Gogledd Caerdydd*

*Jayne Bryant - AC Casnewydd*

*Mike Hedges AC Dwyrain Abertawe*

*Nick Ramsey AC Mynwy*

*Eluned Morgan AC dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru)*

*Kirsty Keenan- Swyddfa Eluned Morgan AC*

Agorodd Eluned y cyfarfod gyda throsolwg byr o'r effeithiau cadarnhaol y mae'r celfyddydau wedi'u cael ar faterion iechyd, yn enwedig ym meysydd iechyd meddwl, dementia ac adferiad corfforol.

Canmolodd Phil George, Cadeirydd *Cyngor Celfyddydau Cymru*, y ffaith fod y pwyllgor wedi'i sefydlu, gan ddweud bod cael profiad o'r celfyddydau "yn newid bywydau ac yn hanfodol ar gyfer lles pobl Cymru".

Soniodd am bwysigrwydd datblygu cynlluniau celfyddydol, gan ddweud bod gostyngiadau gwariant sylweddol yn deillio o weithredu effeithiol, yn enwedig o fewn y GIG.

Mae gwaith a wneir gan *Gyngor Celfyddydau Cymru* ar hyn o bryd yn cynnwys cysylltiadau agos â byrddau iechyd ledled Cymru a phrosiectau mawr gydag AVMU, prosiectau cartrefi gofal *Age Cymru*, a threfniant cydweithio gyda *Celfyddydau Anabledd Cymru* ar gyfer gŵyl y Celfyddydau ac Iechyd Meddwl.

Dywedodd Phil fod Cyngor Celfyddydau Cymru yn falch iawn o gefnogi Cerddoriaeth Fyw Nawr yn ei waith yn datblygu talent cerddorol tuag at feysydd penodol o angen.

Pwysleisiodd yr angen am newid sylweddol mewn 3 maes penodol -

1. Mwy o ddarpariaeth gydgysylltiedig strategol
2. Canolbwyntio'n fanwl ar anghenion Cymru
3. Rhagor o gyllid ychwanegol

Amlygwyd bod angen casglu tystiolaeth gref o lwyddiant a manteision economaidd ymyrraeth drwy'r Celfyddydau. Dywedodd Phil ei fod yn credu mai'r ffordd ymlaen fyddai cael darn trylwyr o ymchwil sylweddol, wedi'i ariannu'n llawn, a fyddai'n arwain at ddatblygu gwaith mawr ym maes y celfyddydau ac iechyd.

Cyfeiriwyd at brosiect '*Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*' fel enghraifft dda o weledigaeth o'r fath y byddai modd ei wneud yn gynaliadwy ac yn atebol i anghenion Cymru.

Gorffennodd Phil drwy bwysleisio'r angen i ddysgu o'r gwaith sydd wedi'i wneud yn y maes hwn yn y DU ac yn rhyngwladol.

Cydnabu Eluned arbenigedd y bobl yn y cyfarfod a bu'n sôn am weithio gyda'i gilydd i gryfhau'r ymchwil. Awgrymodd y dylid gwahodd Ysgrifenyddion y Cabinet dros Iechyd a'r Economi i gyfarfodydd yn y dyfodol, ac y dylid cynnal cyfarfod bob chwarter. Cytunodd y rhai oedd yn bresennol.

Hefyd, cyflwynodd y syniad y gellid defnyddio Cymru fel treial ar gyfer comisiwn tebyg yn San Steffan, y mae hi hefyd yn rhan ohono.

Rhoddodd Claire Cressey drosolwg o'r gwaith a wneir gan *Cerddoriaeth Fyw Nawr:* gweithio mewn amgylcheddau gofal, gan helpu pobl hŷn sy'n dioddef o ddementia a hefyd blant ag anghenion arbennig. Aeth ymlaen i amlygu fel y gall cerddoriaeth fyw fod o fudd mawr i gleifion mewn ysbytai a chanolfannau gofal. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd am absenoldeb Evan Dawson (Cadeirydd y DU).

Wedyn cafwyd perfformiad ardderchog gan gerddorion Cerddoriaeth Fyw Nawr, Stephanie Bolt a Jessica Robinson.

Ailadroddodd Eluned yr effaith y gall y Celfyddydau ei chael ar ganlyniadau iechyd. Gan bwysleisio pwysigrwydd tynnu tystiolaeth ynghyd, gofynnodd i'r rhai oedd yn bresennol a wnaen nhw lunio adborth ysgrifenedig neu awgrymiadau ynglŷn â'r nodau a'r amcanion a oedd wedi'u crybwyll erbyn y cyfarfod nesaf.

Diolchodd Eluned i bawb am eu presenoldeb a'u cyfranogiad yn y cyfarfod. Cyfnewidiwyd manylion cyswllt y rhai a oedd yn bresennol fel y gellid creu fforwm. Caiff dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf ei gadarnhau yn y Flwyddyn Newydd.

Wedyn cafwyd ail berfformiad gan Jessica a Stephanie i gloi'r cyfarfod.

**Pwyntiau Gweithredu erbyn y cyfarfod nesaf:**

**Cytunodd swyddfa Eluned i greu fforwm ar-lein i hwyluso rhyngweithio haws**
**Cytunodd y rhai a oedd yn bresennol i ystyried adborth a gweithgarwch a awgrymir**
**Cytunodd swyddfa Eluned i ysgrifennu at Ysgrifenyddion y Cabinet dros Iechyd a'r Economi, gan amlygu gwaith y grŵp a'u gwahodd i'r cyfarfod nesaf.**